| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **27 Medi 2013** |
| **Aelod/ Swyddog Arweiniol:** | **Cynghorydd Barbara Smith/ Alan Smith** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Tony Ward** |
| **Teitl:** | **Llythyr Asesu Gwelliant Swyddfa Archwilio Cymru** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

1.1. Mae'r papur hwn yn cyflwyno'r Llythyr Asesu Gwelliant diweddaraf ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych, a roddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ar 12 Medi 2013. Mae'r llythyr ynghlwm yn Atodiad I.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

2.1. Mae'r adroddiad yma'n darparu gwybodaeth ynglŷn a Llythyr Asesu Gwelliant diweddaraf Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych. Mae hwn yn un o'r adroddiadau allanol allweddol a dderbynnir gan y Cyngor bob blwyddyn.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

3.1. Bod y pwyllgor yn ystyried y Llythyr Asesu Gwelliant diweddaraf ac yn amlygu unrhyw feysydd o bryder y dylai'r cyngor fynd i'r afael â nhw.

**4. Manylion am yr adroddiad**

4.1 Mae'r Llythyr Asesu Gwelliant yn adrodd casgliadau Archwilydd Cyffredinol Cymru o'i archwiliad a'i waith asesu o ran a ydi'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi cyfarfod a gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae gwaith manylach ar drefniadau'r Cyngor i gefnogi rheolaeth perfformiad ac adrodd perfformiad yn digwydd ar hyn o bryd, a bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith i gyd (a gwaith rheolyddion perthnasol eraill yn ystod 2012-13) pan fydd yn cyhoeddi Adroddiad Gwelliant Blynyddol ar gyfer y Cyngor erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1. Nid yw'r adroddiad yn gofyn am benderfyniad.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Does yna ddim oblygiadau cost yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1. Nid oes angen asesiad effaith ar gydraddoldeb gan na fydd penderfyniad yn deillio o'r adroddiad hwn a fydd yn golygu y bydd unrhyw newid i staff neu'r gymuned. Felly ni fydd yn cael effaith negyddol anghymesur ar bobl sydd wedi rhannu nodweddion arbennig a warchodir.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gydag Archwilio ac eraill?**

8.1. Cyflwynwyd drafft o'r Llythyr Asesu Gwelliant i'r Prif Weithredwr, a darparwyd adborth, cyn terfynu'r llythyr. Cyflwynwyd y Llythyr Asesu Gwelliant hefyd er gwybodaeth i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 21 Chwefror 2013.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

9.1. Dim angen.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Amherthnasol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1. Nid yw'r adroddiad yn gofyn am benderfyniad.